# CAN,

AM

# Y GOFAL:

YN DANGOS

## CYFLWR DYN

### *YN EI IEUENGCTYD, YN NGHANOL OEDRAN, AC MEWN HENAINT.*

---

Holl ddyddiau dyn sydd orthrymder, a'i lafur yn ofid; Ie, ni chymmer ei galon esmwythdra y nos. Hyn hefyd sydd wagedd. ............................SALOMON.

---

*Cyhoeddwyd gan Dafydd Amos.*

---

I.

ATTOLWG, Ie'ngctid dewch yn nes, gwrandewch ar gynhes
ganiad,
Wyf yn ddanfon yn eich mysg, er addysg a chyf'rwyddiad;
Nid oes ynddi ond y gwir, ar fesur hwylus hylaw,
Yn ol a brofais i fy hun, ar hyn o destun dystaw.

II.

A mi'n llengcyn ieuangc glân, y'mysg plant mân fel finnau
Heb roddi 'ngofal ar y byd, ond fy holl fryd ar chwareu;
Fe ddaeth Ie'ngctid ffrolic ffraeth, â'i weniaith helaeth
hwylus,
A'i gyfeillion gydag e', i'm dirio i le dyrus.

III.

Y rhai'n a dd'wedent wrthyf fi, os mynwn i anrhydedd,
Am fyned allan gydâ hwy, y cawn i fwy o fawredd;
A minnau'n blentyn hawdd ei droi, gwell genny' roi na tharo,
Mi a'u dilynais hwy'n dda 'ngwedd, tros ugain mlynedd
gryno.

L.W. 4819 X20524023

IV.

Canu a dawnsio gydâ'r tant, yn fawr fy chwant at fiwsic,
Dilyn y gelfyddyd hon, y'mysg cyfeillion ffrolic;
Chwareu cardiau'n dda fy null, ar hyder ennill arian,
Ac yfed cwrw oedd fy ngwaith, tros lawer noswaith gyfan.

V.

Yn ol hynny myn'd yn ffol, i ganlyn gwrol gampau,
Taflu *bar* a maen heb fwyth, neu godi llwyth lle byddai ;
Ymaflyd codwm ar dir têg, neu redeg am y cyntaf,
Nofio, neidio, saethu nôd, a cheisio bod yn bennaf.

VI.

Amser weithian, medd pob ffrynd, oedd i mi fyn'd i wreica,
Caru'r merched têg eu gwedd, yw'r gorchwyl nawsedd nesa';
Colli 'nghysgu lawer nos, o achos Gwen (lliw'r lili)
Nes perswadio Gwen dda'i phryd, i roi addewid i mi.

VII.

Yn ol priodi têg ei phryd, a chynnal byd dros wythnos,
Yr oedd ie'ngctid wedi ffoi, er dim ni ddoi yn agos;
A phan aeth ie'ngctyd dros y drws, oedd gymhwys iawn bob cymmal,
Fe ddaeth gwr arall yn ei le, a'i enw e' oedd Gofal.

VIII.

Nid oedd gennyf fawr o barch, i gyfarch i'r fath gyfaill,
Gan mor llawen ac mor llon oedd y cyfeillion eraill;
Mae yntau'n llawn o ffwdan dwys, ni orphwys, ond gofalu,
Yn llawer mwy ei 'stwr na'i waith, onid blinder maith yw hynny?

IX.

Fe ddeuai attaf gydâ'r wawr, i'm galw i lawr yn foreu,
I yrru'r gweision at eu gwaith, a chym'ryd taith i'r caeau;
Gwylio gwallau ar hyd y tir, trwy'r boreu hir mewn fferdod,
Chwilio pob lledfegyn gwan, a'i osod dan y cysgod.

X.

Dechreu troi yn hwsmon da, a gwella'r hen arferion,
Bod yn ddiwyd ar bob cam, gofalu am fy moddion:

Pa fwyaf oeddwn yn grynhoi, 'roedd hynny'n rhoi annog-
aeth,
I ofalu byth yn fwy, rhag colli trwy sibiaeth.

XI.

Fe dd'wedai wrthyf yn y man, rhag myn'd yn egwan eiddil,
Am gasglu arian, gwneuthur côd, a byw a bod yn gynnil;
Gwr gofalus yn mhob man, gaiff fenthyg gan gymmydog;
A'r gwr gwastraffus llwyd ei big, ni chaiff e' fenthyg ceiniog.

XII.

Ni chawn i daro 'nwylaw 'mhleth na rhodio peth yn 'smala,
Na byddai'n d'wedyd yn ddifeth, fod arnaf dreth a gwestfa,
A rhent mawr i feistr tir, a hur i'r gweithwyr dyfal,
Ni chawn i lonydd mewn unman, na orphwys, gan y Gofal.

XIII.

Dywedwn wrtho ambell waith, cymmer daith i'r mynydd,
At fy ngweithwyr yn fy lle, a gâd i mi yn llonydd;
Fe'm hatebai ar fyr dro, beth bynnag wnelo rhei'ny,
Dyma'r gwir, os coeli fi, mae'n rhaid i ti ofalu.

XIV.

Attebwn ef mewn geiriau *plain*, mae rhai'n a'r rhai'n yn rhodio
Yn fawr eu parch, eu bri, a'u clod, a minnau'n gorfod gweithio:
Fe'm hattebai'n ddigon traws, nid wyt ti haws er hynny,
Nid oes fawr gyfoeth gydâ neb o'r rhai sydd heb ofalu.

XV.

Attebwn ef, a rhoddwn sen, mae gwallt fy mhen yn llwydo,
A'r nerth sydd wedi myn'd yn wan, ni allaf weithian weithio:
Fe'm hattebai i fel hyn, tydi sydd yn y fagal,
Er nas gelli weithio o hyd, ti elli gym'ryd Gofal.

XVI.

'R wy'n awr yn bedwar ugain oed, ni bum erioed cyn saeled;
Er bod yn wych, 'rwy'n awr yn wael, chwennychwn gael fy
arbed:
Nid wyf yn caru'r drefn hon, 'rwyf weithian bron a marw,
Oni byddi'n ail dy le, mi a goda'r chwareu i gadw.

XVII.

Taw di a son a swn mor sael, os rhoi di'r Gofal heibio,
I ŵr arall, deall di, ti golli'r bri a'r swcro:
Di ei'n fethedig ac yn wan, heb fyn'd o'r man, er mynnu;
I bob cysur cân yn iach, gan i ti bellach ballu.

## XVIII.

Mi roes y Gofal o fy llaw, gael bod yn ddifraw ddigon,
Pwy ddaeth attaf, heb ddim llai, ond Henaint a'i gyfeillion:
Fe dd'wedai hwn, Bid gwaeth, bid gwell, mi fydda'n gyfaill i ti;
A'i holl ganlynwyr tân eu nhôd, oedd barod i'm gwas'naethu.

## XIX.

Fe ddaeth y fogfa'n gynta' gwaith, a'r peswch maith yn pwyso,
Y gymmalwst efo'r cryd, a'r gwthi i gyd yn gweithio;
Anadl byr yn drewi'n drwm, a'r pen yn grwm fel cryman;
Ni fedraf ffoi, er maint fy *scil*, na myn'd o gil y pentan.

## XX.

Mae'r blew a'r gwallt yn fan-bluf gwyn, a'r olwg yn tywyllu
Trwm yw'r clywed, cryg yw'r llais, a'r cnawd fel clais yn glasu:
Dim cysur bydol mwy ni's câf, fynychaf rwy'n afiachus;
Yn iach i'r byd, a groesaw i'r bedd, chwennychaf ddiwedd happus.

*JENKIN THOMAS, a'i cânt.*

## DIWEDD.

*Jonathan Harris, Argraffydd, Caerfyrddin.*